



Cyfarfod

PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 9FED MAWRTH, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 27 Chwefror 2026)

PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Gwynfor Owen
Gwilym Evans

Gareth Tudor Jones
Huw Rowlands
Alan Jones Evans
Arwyn Herald Roberts
Meryl Roberts

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Gareth Williams
John Brynmor Hughes
Hefin Underwood

Angela Russell
Anwen J. Davies

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 1af o Rhagfyr 2025 fel rhai cywir

5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU

5 - 15

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 18-11-2025

b) 01-12-2025

6. DIWYGIAD Y LLYWODRAETH GANOLOG O'R SYSTEM DRWYDDEDU EIDDO - FFRAMWAITH POLISI TRWYDDEDU CENEDLAETHOL

16 - 33

I ystyried yr adroddiad

Bod y Pwyllgor Trwyddedu Canolog yn cytuno i ystyried cyfeiriad strategol cyffredinol y Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan ei Is-bwyllgor, a

Cytuno i ymgorffori cyfeiriad strategol y Fframwaith i adolygiad nesaf y Datganiad o Bolisi Trwyddedu yn 2029.

PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 01-12-2025

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Anwen Davies, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts, Angela Russell, Hefin Underwood a Gareth Williams

Swyddogion: Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Andrew Parry (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 30 Mehefin 2025 fel rhai cywir

5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion Is Bwyllgorau Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 13 Awst 2025 a 16 Gorffennaf 2025 fel rhai cywir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:45am a daeth i ben am 10:50am

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
Tachwedd 18 2025

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Gwynfor Owen (Cadeirydd), Arwyn Herald Roberts ac Elfed Williams

Swyddogion: Nia Grisdale (Rheolwr Adran Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Eitem 4:
Cais Trwydded Eiddo: Tŷ Coffi Reubens, 31 Stryd Fawr, Caernarfon, Gwynedd

Reuben Wall Ymgeisydd
Stuart Gibson Cynrychiolydd yr ymgeisydd

Ffion Lewis Swyddog Gwarchod y Cyhoedd
Arwel Thomas Uwch Swyddog Cynllunio

Ymddiheuriadau: Dim i'w nodi

Eitem 5:
Cais Trwydded Eiddo: Garej Clynnog, Clynnog Fawr, Caernarfon

Naga Rajesh Cynrychiolydd yr ymgeisydd Sterling Petroleum
Sarujan Nadesan Rheolwr Ardal Sterling Petroleum

Ymddiheuriadau: Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus BIPBC

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO: Tŷ Coffi Reubens, 31 Stryd Fawr, Caernarfon.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) Adroddiad yr Adran Trwyddedu

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn manylu ar gais am drwydded eiddo gan Tŷ Coffi Reubens. Disgrifwyd yr eiddo fel siop goffi gyda'r bwriad o weithredu fel siop goffi yn bennaf gyda darpariaeth ychwnaegol i werthu alcohol i'w yfed ar ac oddiar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymhell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Adroddwyd bod lechyd yr Amgylchedd wedi cyflwyno gwrthwynebiad oherwydd pryderon ynglŷn â niwsans cyhoeddus. Rhoddwyd caniatâd yn wreiddiol i'r safle fel tŷ coffi ac nid bar gydag oriau agor hyd 18:00 ac nid fel sydd yn cael ei geisio yma hyd 00:00. Petai'r eiddo yn derbyn caniatâd i werthu alcohol, roedd sylwadau lechyd yr Amgylchedd yn pryderu, gyda cherddoriaeth fyw ac wedi ei recordio yn cael ei chwarae ar yr eiddo, bydd potensial o achosi aflonyddwch sŵn i eiddo preswyl cyfagos. Roedd lechyd yr Amgylchoedd hefyd yn amlygu and oedd asesiad effaith sŵn wedi ei gwblhau.

Cyfeiriwyd at sylwadau a dderbyniwyd gan yr Adran Cynllunio oedd yn cadarnhau bod y cais yn groes i ofynion caniatâd Cynllunio presennol yr eiddo - y caniatâd presennol yn caniatáu gweithgareddau hyd 18:00. Ategywd and oedd cais wedi ei gyflwyno i amrywio'r oriau hyn, ond bod cais i newid defnydd o A1 i A3 wedi ei gyflwyno ac yn aros penderfyniad.

Roedd y swyddogion, yn unol â Deddf Drwyddedu 2003, yn argymhell i'r Pwyllgor argymhell bod y cais yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y telerau canlynol:

- Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r caniatâd cynllunio, ac ni ddylai'r drwydded ddod i rym nes bod materion cynllunio wedi'u datrys, a
- Rhaid i'r oriau gweithredu a'r gweithgareddau trwyddedig fod yn unol â'r oriau a ganiateir o dan y caniatâd cynllunio.
- Dylid darparu asesiad effaith sŵn i fynd i'r afael â phryderon lechyd yr Amgylchedd ac i sicrhau atal niwsans cyhoeddus.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
- Swyddog cyfreithiol i grynhoi gofynion y cais

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â hawliau chwarae cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio a'i chwyddo, nodwyd petai'r cais yn cael ei ganiatáu bydd hawl gan yr ymgeisydd chwarae cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio a'i chwyddo hyd 23:00 - wedi hyn byddai angen rhybudd digwyddiad dros dro. Ategywd bod lechyd yr Amgylchedd

yn dueddol o gynnwys sylwadau sŵn ar bob cais oherwydd y potensial o niwsans sŵn petai'r ymgeisydd yn peidio cymryd camau priodol i liniaru effaith sŵn.

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Mai gweithredu fel siop goffi yw prif fwriad y busnes
- Creu awyrgylch ddymunol lle bydd pobl yn gallu cwrdd am sgwrs a chyfarfod ffrindiau
- Bod cais hyd hanner nos wedi ei awgrymu ar gyfer hyblygrwydd yn unig - defnydd os bydd galw er enghraifft ar gyfer parti, digwyddiad preifat. Petai'r digwyddiad hwn yn mynd tu hwnt i 23:00 yna bydd yr ymgeisydd yn rhoi gwybod i'r Heddlu ac lechyd yr Amgylchedd 14 diwrnod cyn y digwyddiad i drafod y trefniadau
- Bydd yr ymgeisydd yn ystyried cadw sŵn i lawr
- Bod cais newid defnydd wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i addasu'r oriau agor.
- Yr ymgeisydd yn ymwybodol na all yr oriau trwyddedu fod ar waith hyd nes bod yr amrywiad oriau a nodir ar oriau'r caniatâd cynllunio presennol wedi'i amrywio a'i gymeradwyo. Mae'r caniatâd cynllunio presennol yn caniatáu masnachu tan 18:00 o'r gloch. Nid oes bwriad ganddo dorri'r gyfraith
- Bydd gwydr dwbl wedi ei osod ar flaen y siop a'r ffenestr ochr i leihau effaith sŵn
- Nid oes gwrthwynebiadau wedi eu derbyn gan gymdogion
- Bod yr ymgeisydd yn fodlon darparu asesiad effaith sŵn

Drwy ganiatâd y Cadeirydd, rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ychwanegu sylwadau pellach ;

- Ei fod yn angerddol am y busnes. Bod ganddo ddwy siop goffi arall (un yng Nghaerdybi a'r llall ym Mangor Uchaf) sydd yn boblogaidd iawn
- Caernarfon oedd y safle naturiol nesaf i ymestyn ei fusnes - yn gobeithio agor eiddo mewn safle treftadaeth fyddai yn rhoi hwb i'r economi leol
- Nad oedd bwriad agor bar, swnllyd hwyr y nos – diwylliant tŷ coffi sydd yma o greu awyrgylch hamddenol a chyfle i bobl ymlacio.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a niferodd lle a nifer staff, nododd y byddai modd eistedd 15 yn y caffi a bod bwriad cyflogi hyd at 15 aelod staff (cymysg llawn amser a rhan amser).

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd asesiad sŵn wedi ei gyflwyno, nodwyd mai lleoliad safonol i ymlacio oedd yma a phetai digwyddiad yn codi lle byddai angen asesiad sŵn, bydd hynny yn cael ei weithredu.

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt:

Ffion Lewis Swyddog Gwarchod y Cyhoedd

- Yn gwrthwynebu'r cais gan fod yr ymgeisydd wedi methu dwy perswawd ar y gwasaneth eu bod am reoli sŵn ac atal niwsans cyhoeddus
- Bod 18:00 yw amser cau yn y caniatâd cynllunio presennol
- Nad oes ubnrhwy strywtur mewn lle i atal sŵn yn yr adeiald
- Petai'r cais yn ael ei ganiatáu, bydd angen gosod amodau

Menw yamtbe i gwestiwn ynglŷn a nifer cwynion sŵn yn yr ardal yma sy'n cael eu derbyn gan y Gwasaneth, nodwyd bod y gwasaneth 'yn derbyn nifer o gwynion sŵn yn yr ardal'.

Arwel Thomas Uwch Swyddog Cynllunio

- Yn gwrthwynebu'r cais gan nad oedd yr oriau agor a geisiwyd yn cyfateb gydag amodau y caniatâd cynllunio presennol

- Bod cais i ddiwygio defnydd ac oriau wedi ei gyflwyno i'r Adran Cynllunio
- Bod gwall yn y disgrifiad ac felly bydd angen ei ail gyflwyno
- Mai bwriad y cais blaenorol oedd agor siop bwyd poeth, ond os nad oes bwriad gweini bwyd poeth gan Tŷ Coffi Reubens yna bydd angen ail ymgynghori

dd) Yn manteisio ar y cyfle i gloi ei hachso, nododd y Swyddog Trwyddedu mai'r argymhellia doedd caniatáu cyn belled a bod y telerau yn cael eu cyfarch. Er bod y cynllun busnes yn un i'w gymeradwyo, bod tuedd weithiau i fanteisio ar weithgareddau trwyddedig fel bydd sawl eiddo arall yn wneud. I osgoi hyn, rhaid sicrhau bod yr eiddo ar drwydded yn addas i bwrpas.

Yn manteisio ar y cyfle i gloi ei achos, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd, y sylwadau canlynol:

- Er yn nodi 'nifer o gwynion sŵn yn yr ardal' nid oedd hyn yn bendol i'r eiddo yma
- Bod tafarnadia yn yr ardal
- Mai lle ar gyfer 15 i eitedd yn unig oedd yma
- Nid oedd unrhwy wrthwynebiadau wedi eu derbyn gan y cyhoedd
- Yn derbyn diwygiad l eiriad y cais cynllunio i nodi ar gyfer 'trosi adeilad elusen l werthiant siop goffi' – yr egwyddor yn dderbyniol.
- Ei fod yn cadarnhau nad oes bwriad gwerthu bwyd poeth ar y safle yn ystod y dydd na'r nos

e) Cymerodd y Swyddog Cyfreithiol y cyfle i grynhoi gofynion y cais;

- Bod angen diwygio disgrifiad cais cynllunio 2025
- Orlau agor o 8:00 hyd 00:00 bob dydd
- Bod cyfaddawd wedi ei gytuno i orffen gwerthu alcohol am 23:30 a chau'r siop am 00:00
- Na fyddai'r oriau agor a geisir yn weithredol hyd nes bydd yr elfen cynllunio wedi ei benderfynu

Ymneilltuodd cynrychiolydd yr ymgeisydd a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partion â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawriad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwysu a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Atal niwsans cyhoeddus
- Sicrhau diogelwch cyhoeddus
- Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais

Oriau Agor:

Dydd Sul 08:00 – 00:00

Dydd Llun 08:00 – 00:00

Dydd Mawrth 08:00 – 00:00

Dydd Mercher 08:00 – 00:00
Dydd Iau 08:00 – 00:00
Dydd Gwener 08:00 – 00:00
Dydd Sadwrn 08:00 – 00:00

Gweithgareddau Trwyddedadwy: Gwerthu alcohol: Ar ac oddi ar yr eiddo

Dydd Sul 08:00 – 23:30
Dydd Llun 08:00 – 23:30
Dydd Mawrth 08:00 – 23:30
Dydd Mercher 08:00 – 23:30
Dydd Iau 08:00 – 23:30
Dydd Gwener 08:00 – 23:30
Dydd Sadwrn 08:00 – 23:30

Y mesurau ychwanegol, fel y nodir yn rhan M y cais, ac a gytunwyd yn y gwrandawriad, i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded:

- Cofnod o bob gwerthiant alcohol a wrthodwyd
- Gosod a chynnal system TCC gynhwysfawr gyda recordiadau i'w storio am o leiaf 31 diwrnod gyda stamp dyddiad ac amser
- Hyfforddiant Staff;
- Llyfr damweiniau mewnol
- Polisi Her 25;
- Dim cerddoriaeth uchel
- Gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel ac yn barchus;
- Cynnal asesiad effaith sŵn cyn agor yr eiddo i'r cyhoedd. Canlyniad i'w rannu gydag Adran Gwarchod y Cyhoedd;
- Gwahardd gwaredu poteli a chaniau gwastraff i gynwysyddion y tu allan i'r adeilad ynunol ag amodau'r drwydded rhwng 22:00 - 08:00. Poteli gwag i'w storio mewn sgip / bin â chaead o fewn cwrtill y safle cyn eu casglu.

Nodyn:

Bydd yr ymgeisydd hefyd yn ymwybodol na all yr oriau trwyddedu fod ar waith hyd nes bod yr amrywiad oriau a nodir ar oriau'r caniatâd cynllunio presennol wedi'i amrywio a'i gymeradwyo. Mae'r caniatâd cynllunio presennol yn caniatáu masnachu tan 18:00 o'r gloch.

Yng nghyd-destun **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn**, ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor yma.

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor yma.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus**, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau gan Adran Gwarchod y Cyhoedd oedd yn mynegi pryderon ynghlyn a photensial o ymddygiadau gwrthgymdeithasol a materion niwsans cyhoeddus yn deillio o ganiatáu'r cais. Roedd y gwrthwynebiadau yn ymwneud a'r oriau agor arfaethedig a'r effaith fyddai sŵn neu arogl yn gael ar anheddau preswyl cyfagos yn enwedig yn hwyrach yn y nos. Cynnigodd yr Adran mai oriau agor hyd 18:00 o'r gloch y dylid rhoi ar y drwydded yn unol â'r caniatâd cynllunio presennol. Cyfeiriwyd hefyd at bryderon oedd yn ymwneud â gallu'r adeilad i reoli sŵn cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio ac y dylai'r ymgeisydd gyflwyno asesiad effaith sŵn.

Er nodi'r pryderon, nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod tystiolaeth wedi ei gyflwyno yn amlygu niwsans cyhoeddus o'r eiddo yma yn bebnodol ond roedd yr is-bwyllgor yn annog yr ymgeisydd i gynnal asesiad effaith sŵn a'i gyflwyno i'r Adran (hyn wedi ei gynnwys fel amod ar y drwydded).

Fel unrhyw gais arall, petai unrhyw broblemau yn codi mewn cysylltiad â'r egwyddorion Trwyddedu, mae'r Ddeddf yn caniatáu cyfeirio trwydded i'w hadolygu gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed**, roedd yr ymgeisydd wedi darparu manylion ynglyn a'r camau i'w cymryd i sicrhau na fydd alcohol yn cael ei werthu i'r rhai dan oed a byddai'r camau hyn yn cael eu cynnwys fel amodau ar y drwydded.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

5. CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO: Soch, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd LI53 7DS

YMGEISYDD WEDI TYNNU Y CAIS YN ÔL

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:20pm

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Rhagfyr 1af 2025

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Gwynfor Owen (Cadeirydd), Gareth T Jones a Gareth Williams

Swyddogion: Nia Grisdale (Rheolwr Adran Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Eitem 4: ROBERTS'S NEWSAGENTS, 63 STRYD FAWR, PORTHMADOG, LL49 9LR

Robert Mariyampillai Ymgeisydd

Nira Suresh Cynrychiolydd yr ymgeisydd

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Lleol)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO: ROBERTS'S NEWSAGENTS, 63 STRYD FAWR, PORTHMADOG.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) Adroddiad yr Adran Trwyddedu

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn manylu ar gais am drwydded eiddo gan Roberts's Newsagents (Pikes). Disgrifiwyd yr eiddo fel siop bapur newydd gyda'r bwriad o barhau i weithredu fel siop yn bennaf, ond i gynnwys darpariaeth ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymhell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Adroddwyd bod yr Aelod Lleol wedi cyflwyno sylwadau yn mynegi pryderon mewn perthynas ag atal trosedd ac anrhefn, atal niwsans cyhoeddus a diogelwch y cyhoedd.

Gyda bwriad gwerthu alcohol o 6:00 tan 00:00, 7 diwrnod yr wythnos, gallai ddylanwadu ar lefelau yfed, patrymau yfed, a niwed sydd yn gysylltiedig ag alcohol. Roedd yr Aelod yn argymhell cwtdogi'r oriau er mwyn lleihau'r potensial o drosedd ac anrhefn yn y dref ac er lles diogelwch y cyhoedd.

Amlygodd y Rheolwr Trwyddedu bod yr ymgeisydd, ers derbyn sylwadau'r Aelod Lleol, wedi cynnig lleihau'r oriau gwerthu alcohol - 1 awr bob dydd ar ddiwedd y dydd, ond bod yr Aelod Lleol wedi nodi nad oedd y cynnig yn lleddfu pryderon, er gwerthfawrogi'r cynnig o gyfaddawd.

Roedd y swyddogion, yn unol â Deddf Drwyddedu 2003, yn argymhell i'r Pwyllgor argymhell bod y Pwyllgor yn ystyried y sylwadau a'r argymhellion a wnaed i gwtogi'r oriau gweithredu a'i fod yn gwneud penderfyniad yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

- b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-
- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
 - Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
 - Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
 - Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
 - Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
 - Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
 - Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
 - Swyddog cyfreithiol i grynhoi gofynion y cais
- c) Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd sylwadau wedi eu derbyn gan yr Heddlu a Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, nodwyd bod yr Adran wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, 28 diwrnod sydd yn rhoi amser digonol i unrhyw un gyflwyno sylwadau. Yn yr achos yma, ni dderbyniwyd ymateb gan yr awdurdodau cyfrifol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnydd presennol y siop, fel siop bapur newydd ac un sy'n gwerthu offer pysgota ac a fyddai'r gwasanaeth yma yn parhau, cadarnhawyd bod yr elfennau hyn yn parhau.

- ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:
- Bod y siop yn siop deuluol
 - Bod bwriad gwarchod a hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu
 - Nad oedd pryderon wedi eu hamlygu gan awdurdodau cyfrifol
 - Bod gan yr ymgeisydd brofiad mewn rhedeg busnes
 - Sylw a barn sydd wedi ei godi ac nid gwrthwynebiad
 - Eu bod wedi ystyried oriau agor siopau cyffelyb
 - Nad yw 'angen' yn ystyriaeth o dan Ddeddf Trwyddedu 2003
 - Er yn barod i gyfaddawdu, nid oedd cytundeb
 - Bydd buddsoddiad sylweddol i'r siop
 - Bod angen i'r Is-bwyllgor ystyried y cais ar ei rinweddau ei hun

Mewn ymateb i gwestiwn sut roedd yr ymgeisydd yn mynd i atal pobl rhag sefyllian tu allan i'r siop, nodwyd y bydd arwyddion yn cael eu gosod tu allan i'r siop yn gofyn i bobl ystyried cymdogion a symud ymlaen. Bydd rheolwr y siop hefyd yn camu i mewn a gofyn i'r cwsmeriaid symud ymlaen.

Yn manteisio ar y cyfle i gloi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod y cais i'w ystyried fel y'i cyflwynwyd ac nid oedd gwrthwynebiadau wedi eu derbyn gan aelodau'r cyhoedd nac ymgynghorwyr cyfrifol. Er bod cyfaddawd wedi ei gynnig, nid oedd cytundeb.

Yn manteisio ar y cyfle i gloi ei achos, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd, bod hwn yn gyfle i'r siop barhau yn agored ac y byddant yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- d) Cymerodd y Swyddog Cyfreithiol y cyfle i grynhoi gofynion y cais;
- Cais am drwydded gwerthu alcohol o 6:00 – 00:00

Ymneilltuodd cynrychiolydd yr ymgeisydd a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partiön â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawriad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwysu a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

- i. Atal trosedd ac anhrefn
- ii. Atal niwsans cyhoeddus
- iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
- iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais

Oriau Agor:

Dydd Sul 08:00 – 00:00

Dydd Llun 08:00 – 00:00

Dydd Mawrth 08:00 – 00:00

Dydd Mercher 08:00 – 00:00

Dydd Iau 08:00 – 00:00

Dydd Gwener 08:00 – 00:00

Dydd Sadwrn 08:00 – 00:00

Gweithgareddau Trwyddedadwy: Gwerthu alcohol: Ar ac oddi ar yr eiddo

Dydd Sul 08:00 – 23:30

Dydd Llun 08:00 – 23:30

Dydd Mawrth 08:00 – 23:30

Dydd Mercher 08:00 – 23:30

Dydd Iau 08:00 – 23:30

Dydd Gwener 08:00 – 23:30

Dydd Sadwrn 08:00 – 23:30

Y mesurau ychwanegol, fel y nodir yn rhan M y cais, ac a gytunwyd yn y gwrandawriad, i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded:

PENDERFYNIAD: Caniatáu y cais

Oriau Agor:

Dydd Sul 06:00 – 00:00
Dydd Llun 06:00 – 00:00
Dydd Mawrth 06:00 – 00:00
Dydd Mercher 06:00 – 00:00
Dydd Iau 06:00 – 00:00
Dydd Gwener 06:00 – 00:00
Dydd Sadwrn 06:00 – 00:00

Gweithgareddau Trwyddedadwy: Gwerthu alcohol: Ar ac oddi ar yr eiddo

Dydd Sul 06:00 – 23:00
Dydd Llun 06:00 – 23:00
Dydd Mawrth 06:00 – 23:00
Dydd Mercher 06:00 – 23:00
Dydd Iau 06:00 – 23:00
Dydd Gwener 06:00 – 23:00
Dydd Sadwrn 06:00 – 23:00

Mesurau ychwanegol,

- Bydd yr holl staff sy'n gwerthu alcohol neu'n cyflenwi alcohol i gwsmeriaid yn derbyn hyfforddiant o dan y drwydded o fewn chwe wythnos o gael eu cyflogi, a chaiff hyn ei ddogfennu.
- Darparu camera TCC ar ffurf system y gellir ei recordio, a byddwn yn cynnal y system a'i chadw am 31 diwrnod. Bydd y recordiadau ar gael i unrhyw awdurdodau cyfrifol.
- Deilydd y drwydded i sicrhau bod darpariaethau diogelwch tân priodol mewn lle, a bydd llwybrau dianc sydd wedi eu marcio'n glir ac yn cael eu cadw'n rhydd o rwystrau.
- Rheolwr y siop i sicrhau bod cwsmeriaid yn symud i ffwrdd o'r eiddo ac nad ydynt yn loetran yn yr ardal.
- Bydd yr eiddo yn gweithredu polisi 'Her 25'.
- Bydd cardiau adnabod gyda marciau holograffig, pasbort neu gardiau PASS yn cael eu derbyn, a bydd arwyddion atgoffa ar y til yn cael eu defnyddio ar gyfer cynnyrch sydd â chyfyngiad oedran.

Ynghyd â rhestr lawn o'r mesurau yn Rhan M o'r cais sydd yn cael eu cynnig gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu

- Cofnod o bob gwerthiant alcohol a wrthodwyd
- Gosod a chynnal system TCC gynhwysfawr gyda recordiadau i'w storio am o leiaf 31 diwrnod gyda stamp dyddiad ac amser
- Hyfforddiant Staff;
- Llyfr damweiniau mewnol
- Polisi Her 25;
- Dim cerddoriaeth uchel
- Gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel ac yn barchus;
- Cynnal asesiad effaith sŵn cyn agor yr eiddo i'r cyhoedd. Canlyniad i'w rannu gydag Adran Gwarchod y Cyhoedd;
- Gwahardd gwaredu poteli a chaniau gwastraff i gynyddion y tu allan i'r adeilad yn unol ag amodau'r drwydded rhwng 22:00 - 08:00. Poteli gwag i'w storio mewn sgip / bin â chaead o fewn cwrtil y safle cyn eu casglu.

Yng nghyd-destun **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn**, ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor yma.

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor yma.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus**, derbyniwyd sylwadau gan yr Aelod Lleol oedd yn amlygu pryderon ynghylch argaeledd alcohol yn ystod oriau agor estynedig fyddai'n dylanwadu ar lefelau defnydd, patrymau yfed, a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Yn dilyn cyflwyno'r sylwadau, bu i'r ymgeisydd hysbysu'r Is-bwyllgor ei fod wedi ystyried gostyngiad posibl yn oriau gwerthu alcohol a fyddai mewn egwyddor yn lleddfu rhai o'r pryderon a godwyd, ond gofynnodd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol. Yr oriau trwyddedadwy a ystyriwyd gan yr Is-bwyllgor oedd rhwng 6am ac 11pm.

Er nodi'r pryderon a fynegwyd gan yr Aelod Lleol, derbyniodd yr Is-bwyllgor nad oedd llawer o dystiolaeth wedi ei gyflwyno yng nghyd-destun cynnydd mewn lefelau defnydd a phroblemau cysylltiedig yn berthnasol i'r lleoliad penodol yma o ystyried bod safleoedd eraill yn yr ardal gyfagos gyda thrwydded alcohol am oriau tebyg. Fodd bynnag, bu i'r Is-bwyllgor ystyried yr oriau a ganiateir ar gyfer siopau tebyg cyfagos ac o ganlyniad cynigiwyd a phenderfynwyd diwygio'r oriau i 06:00 i 23:00.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed**, roedd yr ymgeisydd wedi darparu manylion ynglŷn â'r camau i'w cymryd i sicrhau na fydd alcohol yn cael ei werthu i'r rhai dan oed a byddai'r camau hyn yn cael eu cynnwys fel amodau ar y drwydded.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00am a daeth i ben am 11:55am

PWYLLGOR	PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	9 Mawrth 2026
TEITL:	DIWYGIAD Y LLYWODRAETH GANOLOG O'R SYSTEM DRWYDDEDU EIDDO - FFRAMWAITH POLISI TRWYDDEDU CENEDLAETHOL
PWRPAS:	CYFLWYNO CRYNODEB O'R NEWIDIADAU A PHA MOR DEBYGOL Y BYDD YN EFFEITHIO AR BENDERFYNIADAU TRWYDDEDU LLEOL A PHOLISI YNG NGWYNEDD
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1 Cefndir

- 1.2 Mae'r system drwyddedu bresennol, dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac wedi'i chefnogi gan arweiniad statudol, yn rheoleiddio gweithgareddau megis gwerthu alcohol, darparu adloniant a lluniaeth hwyr yn y nos. Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno trwyddedau ac yn gorfodi amodau yn seiliedig ar bedwar amcan trwyddedu:
- atal trosedd ac anhrefn
 - diogelwch y cyhoedd.
 - atal niwsans cyhoeddus.
 - amddiffyn plant rhag niwed.
- 1.3 Mae llywodraeth ganolog, drwy ei thasglu sy'n edrych ar ddiwygio Trwyddedu, wedi dangos dros y blynyddoedd ei bod yn credu bod mwy o bwysau yn cael ei roi i ddiogelwch y cyhoedd ac atal trosedd, dan yr amcanion trwyddedu statudol, a llai o ffocws ar dwf a gwydnwch busnes.
- 1.4 Ceisiodd y Llywodraeth am dystiolaeth a barn gan randdeiliaid yn ystod cyfnod ymgynghori byr ym mis Hydref 2025, gyda'r bwriad o ddiwygio'r system drwyddedu er mwyn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i leihau beichiau rheolaethol o 25% erbyn diwedd cyfnod y Senedd hon.
- 1.5 Canolbwyntiodd y Galw am Dystiolaeth ar yr 'ar fasnach' ym mherthynas gwerthu alcohol, er enghraifft tafarndai, bwytai a chlybiau nos, ac ar yr holl adloniant dan Ddeddf Trwyddedu 2003.
- 1.6 Ymatebodd Cyngor Gwynedd, ynghyd â'r rhan fwyaf o Awdurdodau Trwyddedu eraill yng Nghymru a Lloegr, a sefydliadau eraill megis CLILC, Heddlu Gogledd Cymru ac Iechyd Cyhoeddus i'r Galw am Dystiolaeth.
- 1.7 Prif argymhellion cychwynnol y Tasglu oedd creu Fframwaith Polisi

Trwyddedu Cenedlaethol (NLPF) i ddarparu arweiniad anstatudol strategol ar gyfer awdurdodau trwyddedu yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw moderneiddio arferion trwyddedu, cefnogi twf economaidd a chynnal gwarchodaeth cymunedol drwy reoliad cymesur, sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth.

- 1.8 Mae'r arweiniad statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd dan a182 Deddf Trwyddedu 2003 yn parhau mewn grym, ond mae wedi'i adolygu'n ddiweddar gan Ganllawiau Diwygiedig y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd dan adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 er mwyn sicrhau bod rhaid i'r egwyddorion craidd a danlinellwyd gan y Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol yn cael eu hystyried yn lleol wrth hysbysu Datganiadau o Bolisi Trwyddedu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau Trwyddedu. (gweler grynodedb yn yr atodiad)
- 1.9 Mae'r deilliannau arfaethedig yn cynnwys hwyluso gwell cydweithredu rhwng Awdurdodau Lleol a'r diwydiant lletygarwch; ynghyd â gwell aliniad rhwng amcanion trwyddedu, cynllunio ac adfywio.
- 1.10 Mae'r llywodraeth wedi nodi y bydd yn monitro gweithrediad arweiniad strategol lefel-uchel y Fframwaith Cenedlaethol yn ofalus; ac, mewn trafodaeth gydag ystod o randdeiliaid, bydd yn ystyried a oes angen cymryd camau eraill, megis gwneud twf yn y sector lletygarwch yn amcan trwyddedu statudol yn y dyfodol.

2 **Cymhwyso'r Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol gyda phenderfyniadau trwyddedu lleol yng Ngwynedd**

- 2.1 Er bod amcanion cyffredinol y Fframwaith Cenedlaethol yn cael eu croesawu; gall y cysylltiadau cryf rhwng trwyddedu, twf, adfywio ac adnewyddu'r stryd fawr fod yn anodd i'w cyflawni gan nad oes gan Wynedd, yn debyg i lawer o siroedd eraill yng nghefn gwlad Cymru, seilwaith masnachol dwys ardaloedd trefol, sy'n codi pryderon am y canlynol:
 - Gall manteision y Fframwaith wyro tuag at ganolfannau trefol mawr eu poblogaeth
 - Gall Cymru wledig weld mwy o feichiau heb gyfateb ag enillion economaidd lleol. Gall y stryd fawr wledig leol beidio â bod mewn sefyllfa i fanteisio ar drefniadau trwyddedu sy'n fwy hyblyg
 - Risg o fwy o ddadreoleiddio yn cynyddu niwed sy'n ymwneud ag alcohol mewn ardaloedd lle mae adnoddau gorfodaeth cyfyngedig
 - Mae Awdurdodau'r Heddlu wedi datgan pryderon am y ffaith y gall gweithredu'r dull newydd achosi trafferth wrth reoli trosedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol mewn ardaloedd gwledig a'r ardaloedd trefol llai sy'n gyffredin yn y Sir; tra'n gwneud dim i fynd i'r afael â dwysedd yr achosion gydag effaith negyddol bosib ar les cymunedol

- Mae cymunedau gwledig sydd eisoes yn wynebu heriau wrth gael mynediad at wasanaethau yn agored i effeithiau iechyd cyhoeddus; a gallant gael eu heffeithio'n anghymesur gan gynnydd mewn argaeledd alcohol a/neu leoliadau adloniant
- Efallai na fydd arweiniad yn adlewyrchu ystyriaethau ieithyddol a diwylliannol Cymru
- Gall hyrwyddo twf economaidd guddio gwarchodaeth cymunedol o faterion megis ymddygiad gwrth-gymdeithasol a sŵn.

3 Ystyriaethau cynllunio

- 3.1 Mae'r Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol yn pwysleisio bod penderfyniadau trwyddedu yn cyd-fynd gyda pholisi cynllunio ac amodau a chaniatadau defnydd cynllunio sefydledig.
- 3.2 Anogir cysylltiadau effeithiol cryf gyda'r gwasanaeth Cynllunio er mwyn lleoli Trwyddedu fel cyfrannwr i adfer canol trefi ac adnewyddu unedau canol trefi gwag.
- 3.3 Anogir cymeradwyo a mabwysiadu'r Egwyddor Cyfrwng Newid; (Agent of Change Principle) gyda lliniaru sy'n cael ei arwain gan gynllunio ar gyfer materion megis sŵn cyn belled â bod hyn yn ymarferol; ar gyfer datblygiadau newydd wrth ymyl lleoliadau trwyddedig presennol.

4 Penderfyniadau swyddogion a phwyllgorau

- 4.1 Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ddogfen ganllaw Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2025 - mae'n ymddangos ei bod ond ar gael yn Saesneg, mae copi ohoni wedi'i chynnwys yn atodiad yr adroddiad hwn.
- 4.2 Mae'n rhaid i bob penderfyniad barhau i gael ei wneud er mwyn cynnal mesurau diogelu angenrheidiol, sydd â ffocws, ar gyfer atal trosedd, diogelwch y cyhoedd, rheoli niwsans ac amddiffyn plant. Mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn glir ac yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol ac yn gymesur â'r risgiau a nodwyd.
- 4.3 Mae hyn yn cynnwys risgiau penodol (er enghraifft, cwynion am sŵn, mannau trosedd uchel) a risgiau cyd-destunol ehangach, er enghraifft ardaloedd sy'n cael eu hadnabod am drais yn erbyn merched a genethod yn ystod y nos. Nid yw hwn yn ddull newydd ar gyfer proses gwneud penderfyniadau Pwyllgor; ac mae'n rhaid canmol yr pwyllgor hwn am yr eglurder a'r rhesymeg mae'n ei ddarparu ymhob un o'i benderfyniadau.
- 4.4 Nid yw'r canllaw yn annog dibynnu ar amodau safonol neu oriau craidd safonol. Nid yw arferion o'r fath wedi'u mabwysiadu yng Ngwynedd, a bydd pob cais yn parhau i gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun.

- 4.5 Bydd rhagdybiaeth yn parhau tuag at ganiatáu ceisiadau y gwneir cais amdanynt, oni bai bod tystiolaeth i awgrymu bod posibilrwydd i'r cais danseilio'r amcanion trwyddedu; neu fod diwygiad cyfiawn i'r Atodlen Weithredol yn amodol i gytundebau rhwng awdurdodau cyfrifol a'r ymgeisydd i osgoi cyflwyno gwrthwynebiad.
- 4.6 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn pwysleisio bod rhaid cael dull deuol o amddiffyn cymunedau dan y pedwar amcan trwyddedu tra'n ystyried cefnogi adfywio, buddsoddi a thwf yr economi.
- 4.7 Yn aml, mae'r rhain yn ofynion heriol a chystadleuol; a dylai'r pwyllgor ddangos ei fod wedi ystyried buddion economaidd a darparu rhesymeg glir ar gyfer gosod amodau/gwrthod ceisiadau yn y cyd-destun hwn.

5 Adolygiad Datganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd

- 5.1 Mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu arddangos fod cyfeiriad strategol eu Datganiad o Bolisi Trwyddedu yn cyfarch ac ystyried y Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol . Fodd bynnag, y disgwyliad yw nad yw hyn yn angenrheidiol tan adolygiad nesaf y Datganiad i Bolisi Trwyddedu, yn 2029.

6. Argymhelliad

- 6.1 **Bod y Pwyllgor Trwyddedu Canolog yn cytuno i ystyried cyfeiriad strategol cyffredinol y Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan ei Is-bwyllgor, a**
- 6.2 **Ei fod yn cytuno i ymgorffori cyfeiriad strategol y Fframwaith i adolygiad nesaf y Datganiad o Bolisi Trwyddedu yn 2029.**

PAPUR BRIFFIO PWYLLGOR TRWYDDEDU

Diweddariadau i Ganllawiau Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003

1. Crynodeb

Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ddiweddariadau pwysig i Ganllawiau Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 ym mis Tachwedd 2025 ac eto ar 12 Chwefror 2026.

2. Newidiadau Allweddol Tachwedd 2025

2.1 Twf Economaidd (Paragraff 1.18 Newydd)

Rhaid i awdurdodau trwyddedu ystyried twf economaidd a buddion economaidd wrth wneud penderfyniadau trwyddedu.

2.2 Amddiffyn yn Erbyn Sbigio (Paragraff 10.10)

Mae'r canllawiau bellach yn cynghori awdurdodau i ystyried ychwanegu amodau i ddiogelu cwsmeriaid rhag sbigio lle mae tystiolaeth yn dangos risg.

3. Newidiadau Allweddol Chwefror 2026

3.1 Cynlluniau Lleol (Paragraff 1.19 Newydd)

Rhaid i awdurdodau ystyried cynlluniau a strategaethau lleol perthnasol wrth wneud penderfyniadau trwyddedu.

3.2 Asesu Ar Sail Achos wrth Achos (Paragraff 8.65 Diweddarwyd)

Rhaid asesu pob cais yn unigol, gan roi pwyslais ar unrhyw amodau a gynigir gan yr ymgeisydd.

3.3 Diweddariadau TENS

Diweddarwyd y terfynau a'r gweithdrefnau ar gyfer Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (TENS).

3.4 Estyniad o'r Esemptiad Gwerthu Oddi-Ar y Safle

Mae'r canllawiau'n adlewyrchu parhad yr esemptiaeth sy'n caniatáu gwerthiannau oddi-ar y safle heb amrywiad.

